

2018 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 a'r
Ffordd Gyswllt (Cyffordd
Travellers' Rest, Sir Gaerfyrddin)
(Gwahardd Cerbydau a Therfyn
Cyflymder 30 MYA Dros Dro)
2018

Gwnaed 21 Rhagfyr 2018

Yn dod i rym 3 Ionawr 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar Cefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'r ffordd gyswllt oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 a'r Ffordd Gyswllt (Cyffordd Travellers' Rest, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 30 MYA Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 3 Ionawr 2019.

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

2018 No. (W.)

ROAD TRAFFIC, WALES

The A40 Trunk Road and Link
Road (Travellers' Rest Junction,
Carmarthenshire) (Temporary
Prohibition of Vehicles and 30
MPH Speed Limit) Order
2018

Made 21 December 2018

Coming into force 3 January 2019

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A40 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road and link road should be prohibited and restricted because of works proposed on or near the roads.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Title, Commencement and Interpretation

1. The title of this Order is the A40 Trunk Road and Link Road (Travellers' Rest Junction, Carmarthenshire) (Temporary Prohibition of Vehicles and 30 MPH Speed Limit) Order 2018 and it comes into force on 3 January 2019.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 3 Ionawr 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y ffordd gyswllt” (“*the link road*”) yw'r darn o'r ffordd gyswllt sy'n cysylltu'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain i'r de-orllewin o drosbont Travellers' Rest wrth Gyffordd Travellers' Rest yn Sir Gaerfyrddin;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd Llundain i Abergwaun yr A40 wrth Gyffordd Travellers' Rest yn Sir Gaerfyrddin;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

2. (1) In this Order:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984 Act(2) or in connection with the works giving rise to this Order;

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A40 London to Fishguard Trunk Road at Travellers' Rest Junction in the County of Carmarthenshire.

“the link road” (“*y ffordd gyswllt*”) means the length of the link road connecting the eastbound off and on slip roads to south-west of Travellers' Rest over-bridge at Travellers' Rest Junction in the County of Carmarthenshire.

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 00:01 hours on 3 January 2019 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad a Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a'r ffordd gyswllt a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r ffordd gyswllt a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Atal Dros Dro

5. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn perthnasol o'r ffordd gyswllt a bennir yn erthygl 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

Cymhwyso

6. (1) Ni fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Rhagfyr 2018

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(2) Any reference in this Order to a numbered article is a reference to the article bearing that number in this Order.

Prohibition and Restriction

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed in the lengths of the trunk road and link road specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 30 miles per hour in the length of the link road specified in Schedule 2.

Suspension

5. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the relevant length of the link road specified in article 2 are suspended during such times as the restriction specified in article 4 is in operation.

Application

6. (1) The restrictions and prohibition in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as the indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order shall be 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the 21 December 2018

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Gwahardd Cerbydau Dros Dro

1. Y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain cefnffordd yr A40 a'r ffordd gyswllt i drosbont Travellers' Rest sy'n ymestyn o bwynt wrth eu cyffyrdd â phrif gerbyffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A40 hyd at bwynt wrth y gyffordd ag Old Road.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 30 MYA Dros Dro

2. Y darn o'r ffordd gyswllt sy'n ymestyn o ynys hollti ymuno/ymadael yr A40 tua'r dwyrain hyd at bwynt 200 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â'r ffordd gyswllt i Farchnad Da Byw Caerfyrddin.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 A'R FFORDD GYSWLLT (CYFFORDD TRAVELLERS' REST, SIR GAERFYRDDIN) (GWAHARDD CERBYDAU A THERFYN CYFLYMDER 30 MYA DROS DRO) 2018

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40 a'r ffordd gyswllt gyffiniol, neu gerllaw iddynt, wrth Gyffordd Travellers' Rest yn Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

i) gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o'r gefnffordd a'r ffordd gyswllt a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill hefyd yn yr Atodlen;

ii) gosod terfyn cyflymder 30 mya ar y darn o'r ffordd gyswllt a bennir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad a'r cyfyngiad, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 3 Ionawr 2019 ac yn gweithredu dros nos (19:00 o'r gloch hyd 06:00 o'r gloch) hyd 23:59 o'r gloch ar 2 Gorffennaf 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw

SCHEDULES

SCHEDULE 1

Temporary Prohibition of Vehicles

1. The lengths of the eastbound off and on slip roads of the A40 trunk road and link road to Travellers' Rest over-bridge that extends from a point at their junctions with the main eastbound carriageway of the A40 trunk road to a point at the junction with Old Road.

SCHEDULE 2

Temporary 30 MPH Speed Limit

2. The length of the link road that extends from the A40 eastbound entry/exit splitter island to a point 200 metres east of the junction with the link road to Carmarthen Livestock Market.

THE A40 TRUNK ROAD AND LINK ROAD (TRAVELLERS' REST JUNCTION, CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES & 30 MPH SPEED LIMIT) ORDER 2018

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road and adjoining link road at Travellers' Rest Junction in the County of Carmarthenshire.

The effect of the Order will be to temporarily:

i) prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the lengths of the trunk road and link road specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes are also described in the Schedule;

ii) impose a 30 mph speed limit on the length of the link road specified in Schedule 2 to this Notice.

It is expected that the prohibition and restriction, which will be signed accordingly, will come into force at 00:01 hours on 3 January 2019 and operate overnight (19:00 hours to 06:00 hours) until 23:59 hours on 2 July 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed

newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos tua 2 wythnos cyn unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/Gorchymynion Traffig Dros Dro/2019).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Llwybrau Eraill

Y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain cefnffordd yr A40 a'r ffordd gyswllt i drosbont Travellers' Rest sy'n ymestyn o bwynt wrth eu cyffyrdd â phrif gerbyttfordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A40 hyd at bwynt wrth y gyffordd ag Old Road.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain ac sy'n dymuno ymadael â'r gefnffordd fydd parhau tua'r dwyrain hyd at Gylchfan Pont Lesneven a dychwelyd ar y gerbyttfordd tua'r gorllewin. Mynd at Gyffordd Travellers' Rest ac ymuno â'r ffordd i Farchnad Da Byw Caerfyrddin a mynd tuag at drosbont Travellers' Rest.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain o Old Road/Llan-llwch fydd mynd ar Heol Llysonnen, Heol Llansteffan a theithio tua'r de i ymuno â chefnffordd yr A40 tua'r dwyrain.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 30 MYA Dros Dro

Y darn o'r ffordd gyswllt sy'n ymestyn o ynys hollti ymuno/ymadael yr A40 tua'r dwyrain hyd at bwynt 200 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â'r ffordd gyswllt i farchnad da byw caerfyrddin.

approximately 2 weeks before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2019).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

SCHEDULES

SCHEDULE 1

Temporary Prohibition of Vehicles & Alternative Routes

The lengths of the eastbound off and on slip roads of the A40 trunk road and link road to Travellers' Rest over-bridge that extends from a point at their junctions with the main eastbound carriageway of the A40 trunk road to a point at the junction with Old Road.

The alternative route for eastbound traffic wishing to leave the trunk road will be to continue eastbound to Pont Lesneven Roundabout and return on the westbound carriageway. Proceed to Travellers' Rest Junction and join the road to Carmarthen Livestock Market and proceed towards Travellers' Rest over-bridge.

The alternative route for eastbound traffic from Old Road/Llanllwch will be via Llysonnen Road, Llanstephan Road and travel southbound to join the eastbound A40 trunk road.

SCHEDULE 2

Temporary 30 MPH Speed Limit

The length of the link road that extends from the A40 eastbound entry/exit splitter island to a point 200 metres east of the junction with the link road to Carmarthen Livestock Market.

